

Lefel 2 Sgiliau Hanfodol Cymhwyso Rhif Prawf cadarnhau Papur 4

Hyd (ar y mwyaf): 45 munud

Mae'r prawf cadarnhau hwn yn cynnwys 20 cwestiwn amlddewis

Asesiad Enghreifftiol


Cynhyrchwyd ar y cyd gan y pedwar corff dyfarnu Sgiliau Hanfodol:

Agored Cymru
City & Guilds
Pearson
CBAC



Mae Cwestiynau 1 i 4 yn sôn am bwll nofio

1 Mae'r graff hwn yn dangos beth yw tymheredd yr aer a'r dŵr mewn pwll nofio dros gyfnod o un wythnos.



Dylai fod tymheredd y dŵr 1°C yn is na thymheredd yr aer.

Ar ba ddiwrnod oedd tymheredd y dŵr union 1°C yn is na thymheredd yr aer?

A	Dydd Mercher	
B	Dydd Iau	
C	Dydd Gwener	
D	Dydd Sadwrn	

- 2 Mae pwll y tu allan hefyd. Mae'r tabl isod yn dangos tymheredd y pwll am hanner dydd dros gyfnod o un wythnos.

Tymheredd y pwll tu allan am hanner dydd (°C)						
Dydd Llun	Dydd Mawrth	Dydd Mercher	Dydd Iau	Dydd Gwener	Dydd Sadwrn	Dydd Sul
20.5	20.3	19.7	20.5	21.4	22.0	21.8

Mae tymheredd y dŵr i fod i gael ei gadw o fewn ystod o 2°C

Beth oedd ystod tymheredd y dŵr yr wythnos honno?

A	1.3°C	
B	2.3°C	
C	20.5°C	
D	22.0°C	

- 3 Mae'r pwll yn mesur 20 metr o hyd a 7 metr o led. Mae'r dŵr yn 1.2 metr o ddwfn.

Mae cemegyn yn cael ei ychwanegu at y dŵr er mwyn ei gadw'n lân. Dyma'r label sydd ar y cynhwysydd.

Chloriclens
**Ychwanegwch 5 ml am
bob metr ciwbig o ddŵr**

Faint o'r cemegyn sy'n cael ei ychwanegu at y pwll?

A	84 ml	
B	168 ml	
C	700 ml	
D	840 ml	

4 Mae'r pwll yn cael ei wagio bob hydref er mwyn gwneud gwaith cynnal a chadw arno. Mae'r dŵr yn cael ei draenio o'r pwll ar gyfradd o 50 litr y funud.

1 litr = 0.001 metr ciwbig

Faint o amser y bydd yn ei gymryd i ddraenio 1 metr ciwbig o ddŵr o'r pwll?

A	50 munud	
B	20 munud	
C	5 munud	
D	2 funud	

Mae Cwestiynau 5 i 10 yn sôn am deilsio

5 Mae'r fformiwla hon yn gallu cael ei defnyddio i gyfrifo faint o deils sydd eu hangen i orchuddio wal.

$$n = \frac{Lh}{S^2}$$

n = nifer y teils

L = hyd y wal mewn metrau

h = uchder y wal mewn metrau

S = hyd ochr y teil mewn metrau

Mae wal yn mesur 1.5 metr o hyd a 2.1 metr o uchder.

Mae'n rhaid iddi gael ei gorchuddio â theils sgwâr gydag ochr sy'n mesur 0.3 metr.

Faint o deils sydd eu hangen i orchuddio'r wal?

A	11	
B	29	
C	35	
D	40	

- 6 Mae bocs o 8 teil sgwâr yn costio £12.50.
Mae ochr bob teil yn mesur 20 cm
Fedrwch chi ddim prynu'r teils fesul un.

Mae'n rhaid i beintiwr a phapurwr deilsio 1m^2 o wal.
Mae'n prynu digon o focsys o deils ar gyfer y gwaith.

Faint mae'n talu am y bocsys o deils?

A	£62.50	
B	£50	
C	£48	
D	£37.50	

- 7 Mae angen pum litr o lud ar gyfer pob 2m^2 o wal.

Mae'r wal yn mesur 6 metr o hyd a 3.5 metr o uchder.

Sawl litr o lud sydd ei angen?

A	8.4 litr	
B	12.6 litr	
C	35.0 litr	
D	52.5 litr	

- 8 Mae'r peintiwr a phapurwr yn prynu cawod i'w rhoi yn yr ystafell ymolchi.

Mae'r gawod yn costio £140 heb gynnwys TAW.

Mae TAW yn 20%

Beth yw cost y gawod ar ôl ychwanegu TAW?

A	£147	
B	£154	
C	£160	
D	£168	

9 Dyma'r fformiwla sy'n cael ei defnyddio i gyfrifo cyfanswm cyflog y peintiwr a phapurwr.

$$C = 1.1 (Rh + 21)$$

C = cyfanswm y gost (£)

R = cyfradd yr awr (£)

h = nifer yr oriau

£12 yr awr yw cyfradd talu peintiwr a phapurwr.
Mae'n gwneud 8 awr o waith.

Faint o gyflog mae'n ei gael i gyd gyda'i gilydd?

A	£382.80	
B	£128.70	
C	£126.60	
D	£118.10	

10 Mae peintiwr a phapurwr yn gweithio o 8:15 am tan 4:30 pm bob dydd am 5 diwrnod yr wythnos.

Mae'n cael egwyl o awr bob dydd.

Faint o amser y mae'r peintiwr a phapurwr yn gweithio i gyd gyda'i gilydd mewn wythnos?

A	31 awr 15 munud	
B	33 awr 45 munud	
C	36 awr 15 munud	
D	41 awr 15 munud	

Mae Cwestiynau 11 i 16 yn sôn am gadw'n heini.

11 Mae'r tabl yma yn dangos rhai gweithgareddau a'r calorïau sy'n cael eu llosgi dros gyfnodau penodol o amser.

Gweithgaredd	Amser	Calorïau sy'n cael eu llosgi
Nofio	20 munud	230
Cerdded	30 munud	130
Seiclo	1 awr	550
Loncian	10 munud	100

Pa weithgaredd sy'n llosgi'r mwyaf o galorïau mewn awr?

A	nofio	
B	cerdded	
C	seiclo	
D	loncian	

12 Mae hon yn rhaglen ymarfer corff wahanol.

Math o ymarfer corff	Cyfanswm yr amser bob wythnos (oriau)
Cerdded	5
Loncian	$1\frac{1}{2}$
Seiclo	$2\frac{1}{2}$
Nofio	$3\frac{1}{2}$

Pa ganran o'r holl amser yn gwneud ymarfer corff sy'n cael ei dreulio'n seiclo?

A	4%	
B	5%	
C	20%	
D	25%	

13 Mae seiclwr yn seiclo am $2\frac{1}{2}$ awr ac yn teithio 65 cilometr.

Beth ydi cyflymder y seiclwr ar gyfartaledd?

A	32.5 km/h	
B	26.0 km/h	
C	16.25 km/h	
D	13.0 km/h	

14 Dyma faint o amser y mae 6 rhedwr yn ei gymryd i redeg ras hwyl.

70 munud	52 munud	58 munud	62 munud	52 munud	54 munud
---------------------------	---------------------------	---------------------------	---------------------------	---------------------------	---------------------------

Beth ydi'r amser canolrifol?

A	52 munud	
B	56 munud	
C	58 munud	
D	60 munud	

15 Ar un diwrnod mae menyw yn rhedeg 5.4 km

Mae hi am fynd un rhan o dair ymhellach y tro nesaf y mae hi'n rhedeg.

Pa mor bell y bydd hi'n rhedeg y tro nesaf?

A	1.8 km	
B	5.7 km	
C	7.2 km	
D	8.4 km	

16 Mae rhywun yn codi pwysau 'tegel' 12 pwys mewn sesiwn ymarfer corff.



1 pwys = 0.45 kg

Beth ydi 12 pwys mewn cilogramau (kg)?

A	5.4 kg	
B	11.6 kg	
C	12.45 kg	
D	26.7 kg	

Mae Cwestiynau 17 i 20 yn sôn am reoli arian.

17 Dyma galendr yn dangos tri mis cyntaf y flwyddyn.

Ionawr							Chwefror							Mawrth						
S	L	M	M	I	G	S	S	L	M	M	G	I	S	S	L	M	M	G	I	S
		1	2	3	4	5						1	2						1	2
6	7	8	9	10	11	12	3	4	5	6	7	8	9	3	4	5	6	7	8	9
13	14	15	16	17	18	19	10	11	12	13	14	15	16	10	11	12	13	14	15	16
20	21	22	23	24	25	26	17	18	19	20	21	22	23	17	18	19	20	21	22	23
27	28	29	30	31			24	25	26	27	28			24	25	26	27	28	29	30
														31						

Yr wythnos gyntaf ym mis Ionawr, mae Gwen yn dechrau cynilo ar gyfer ei gwyliau. Bob dydd lau, mae'n rhoi £25 mewn cyfrif banc.

Erbyn pa ddyddiad y bydd hi wedi cynilo £300?

A	7 Mawrth	
B	14 Mawrth	
C	21 Mawrth	
D	28 Mawrth	

18 Mae Gwen yn talu bil o \$186 ar y rhyngwyd.

Mae'n defnyddio'r gyfradd gyfnewid ganlynol:

$$£2 = \$3$$

Faint ydi \$186 mewn punnoedd?

A	£64	
B	£96	
C	£124	
D	£279	

19 Rydych yn gallu prynu teledu mewn ffyrdd gwahanol.

Talu am eich teledu

Talu holl gost y teledu drwy
12 taliad o'r un faint bob mis
neu
52 taliad o'r un faint bob
wythnos

Mae'r taliadau bob mis yn £104 y mis.

Faint y mae angen i chi ei dalu bob wythnos i dalu'r un cyfanswm?

A	£24	
B	£25	
C	£26	
D	£45	

20 Mae 13% o gyflog Gwen yn mynd ar drethi.

Pa ffracsiwn sydd agosaf at 13%?

A	$\frac{1}{8}$	
B	$\frac{1}{12}$	
C	$\frac{3}{20}$	
D	$\frac{3}{25}$	